OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 1053

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023

## RHAN 2

## Trefniadau ar gyfer gwasanaethau offthalmig

**Dyletswydd i drefnu archwiliadau llygaid**

**3.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol drefnu, mewn cysylltiad â'i ardal, ar gyfer darparu archwiliadau llygaid yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol weinyddu'r trefniadau ar gyfer y gwasanaethau hyn yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "archwiliad llygaid" yw archwiliad o'r llygad at ddiben gwneud diagnosis o gyflwr llygaid neu benderfynu ar driniaeth ar gyfer cyflwr llygaid, neu adolygu cyflwr presennol, sy'n cynnwys y profion a'r gweithdrefnau hynny a'r cyngor hwnnw sy'n briodol i'r arwyddion a'r symptomau sy'n ymgyflwyno yn y claf, ac i anghenion y claf hwnnw, a

(b) cyfeirir at y gwasanaethau sy'n ofynnol gan baragraff (1) fel "gwasanaethau archwilio llygaid".

**Gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwasanaethau offthalmig sylfaenol**

**4.** Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "gwasanaethau offthalmig cyffredinol" yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu o dan baragraff 23 (profion golwg) o'r telerau gwasanaeth, a

(b) ystyr "gwasanaethau offthalmig sylfaenol" yw, gyda'i gilydd—

(i) gwasanaethau offthalmig cyffredinol, a

(ii) gwasanaethau archwilio llygaid.